# Comisiwn y Cynulliad

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

**NAFWC 2014 (Papur 2 Rhan 1)**
**Cymorth i Aelodau'r Cynulliad – cynllun gweithredu drafft a Mesur Cynulliad**

**Dyddiad:** 21 Medi 2009
**Amser:** 13:30-15:00
**Lleoliad:** Ystafell 4B
**Enw'r awdur a'r rhif i gysylltu ag ef:** Chris Reading, est 8664

# Cymorth i Aelodau'r Cynulliad - cynllun gweithredu drafft a Mesur Cynulliad

*Paratowyd y papur hwn i'w ystyried gan Gomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Penderfynwyd ei bod yn addas ei gyhoeddi wedi iddo gael ei ystyried yn unol â rheolau'r Comisiwn ar gyfer cynnal busnes. Ni chaniateir i gynnwys y papur hwn gael ei gyhoeddi na'i ddatgelu'n rhy gynnar oherwydd gallai hyn ddylanwadu ar drafodaethau'r Comisiwn.*

## 1.0 Y diben a chrynodeb o'r materion dan sylw

1.1 Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Comisiwn ynghylch y cynnydd o ran gweithredu'r argymhellion yn adroddiad y Panel Adolygu Annibynnol ar gymorth ariannol i Aelodau'r Cynulliad, 'Yn Gywir i Gymru', a gofyn am sêl bendith y Comisiwn ar y camau nesaf.

1.2 Y pwyntiau allweddol i'w nodi yw:

- bydd cam cyntaf yr argymhellion yn dod i rym ar 2 Tachwedd 2009, a bydd yr Aelodau'n cael rhybudd o fis fan leiaf; a
- bydd y fewnrwyd yn cael ei defnyddio i roi gwybod i Aelodau'r Cynulliad, eu staff cymorth a staff Cynulliad Cenedlaethol Cymru am y cynnydd yn fisol, gyda chyfarfodydd ychwanegol a sesiynau galw heibio yn ôl y gofyn.

1.3 Mae'r strwythur rheoli prosiectau arfaethedig ac amserlen o'r hyn sydd i ddigwydd fesul cam yn Atodiad 1; y Mesur Cynulliad arfaethedig yn Atodiad 2; y Memorandwm Esboniadol yn Atodiad 3; amlinelliad o'r strategaeth gyfathrebu yn Atodiad 4; y Penderfyniad arfaethedig yn Atodiad 5 a'r canllawiau cysylltiedig yn Atodiad 6.

## 2.0 Argymhellion

2.1 Gwahoddir y Comisiwn i gymeradwyo'r dull arfaethedig ar gyfer rheoli'r prosiect Cymorth i Aelodau'r Cynulliad, gan gynnwys y strategaeth gyfathrebu a'r dull arfaethedig o weithredu'r argymhellion fesul cam.

2.2 Yn ogystal gofynnir i'r Comisiwn gyflwyno sylwadau ar fersiwn ddrafft Mesur Arfaethedig Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2009 a'r fersiwn ddiwygiedig Penderfyniad Cyflogau a Lwfansau 2009 a'r canllawiau cysylltiedig a chytuno arnynt.

2.3 Yn unol ag argymhelliad 13 gan y panel, bydd y tâl atodol i swydd-ddeiliaid sy'n daladwy i gadeiryddion pwyllgorau ac i swydd-ddeiliaid sy'n gysylltiedig â chadeiryddion yn cael ei gynyddu i £12,000 ac £8,000 y flwyddyn. Gofynnir i'r Comisiwn ystyried dau fater:

- cadarnhau y dylid talu'r lwfans newydd o £12,000 i'r Pwyllgorau a welir yn Rhan I yr Atodiad i'r Penderfyniad a £8,000 i'r rhai a welir yn Rhan II;

- a ddylid cynyddu'r tâl atodol sy'n daladwy i Gadeirydd y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth hyd at y lefel uwch (gweler paragraff 3.4 isod).

## 3.0 Trafodaeth

3.1 Cymeradwyodd y Comisiwn yr holl argymhellion yn adroddiad y panel adolygu annibynnol ar 7 Gorffennaf a gwnaeth y Llywydd ddatganiad i'r Cynulliad drannoeth. Ers hynny, mae Chris Reading a'i dîm wedi dechrau cynllunio'r cam gweithredu. Gwelir manylion am y grŵp llywio a'r amrywiol weithgorau yn Atodiad 1. Mae'r grwpiau hyn wedi cynnal cyfarfodydd cychwynnol ac mae pob argymhelliad wedi'i osod i rywun sy'n gyfrifol am ei weithredu.

3.2 Mae Keith Bush wedi dod yn ei flaen yn dda o ran drafftio'r **Mesur Cynulliad** sy'n ofynnol i sefydlu Bwrdd Taliadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Bydd y Bwrdd yn pennu lefelau cyflogau Aelodau'r Cynulliad ar ôl yr etholiad nesaf a bydd hefyd yn cadw golwg ar yr holl system sy'n ymwneud â chymorth ariannol i'r Aelodau, ac yn gwneud penderfyniadau pan fydd hynny'n ofynnol. Y nod yw bod y Mesur yn cael Cydsyniad Brenhinol cyn toriad yr haf y flwyddyn nesaf, fel y gellir recriwtio aelodau'r Bwrdd yn ystod yr haf ac y byddant yn gallu cynnal eu cyfarfod cyntaf yn yr hydref.

3.3 Er mwyn rhoi rhai o'r argymhellion ar waith (er enghraifft, argymhelliad 51 ynghylch capasiti strategol), bydd angen **trafod ag arweinyddion y pleidiau neu grwpiau'r pleidiau**. Oherwydd y bydd y trafodaethau hyn yn rhai sensitif a hirfaith, ni fydd yr argymhellion hyn yn dod i rym tan ar ôl yr etholiad nesaf. Mae'r dull arfaethedig o weithredu'r argymhellion fesul cam i'w weld yn Atodiad 1, ynghyd â nodiadau ar y sylwadau a'r pryderon a fynegwyd inni gan Aelodau'r Cynulliad, grwpiau'r pleidiau a staff cymorth Aelodau'r Cynulliad ynghylch pob argymhelliad.

3.4 Cyfyngedig fu rôl y **Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth** hyd yma - ystyried agweddau technegol ar ddrafftio'r offerynnau statudol, tasg y mae'r Pwyllgor wedi'i chyflawni mewn cyfarfodydd wythnosol byr yn gynnar ar ddydd Mawrth. Mae cylch gwaith y Pwyllgor yn ehangu cryn lawer o ddechrau tymor yr Hydref, a bydd cynnydd sylweddol yn rôl a phroffil y

Pwyllgor. Ymysg pethau eraill, bydd yn archwilio'r agweddau ar Fesurau'r Cynulliad a Mesurau'r DU sy'n ymwneud ag is-ddeddfwriaeth a rhinweddau offerynnau statudol a wneir gan Weinidogion Cymru. Mae gan y Pwyllgor hefyd bŵer cyffredinol i ystyried 'unrhyw fater deddfwriaethol gyffredinol ei natur sy'n ymwneud â chymhwysedd y Cynulliad neu gymhwysedd Gweinidogion Cymru'. Er mwyn cyflawni'r rôl hon, mae'r Pwyllgor wedi'i amserlennu i gyfarfod bob wythnos yn un o'r slotiau 'craidd' ochr yn ochr â'r pwyllgorau deddfwriaeth a'r prif bwyllgorau craffu eraill. Bydd yr hyn a wneir gan y Pwyllgor, ei effaith a'i broffil yn cynyddu yn unol â hynny ac, yn sgil hynny, y gofynion a'r cyfrifoldeb a roir i'r Cadeirydd. Ar sail hyn, efallai y bydd y Comisiwn yn barnu y dylai lwfans y Cadeirydd fod yn £12,000, yn unol â'r lwfans a gaiff Cadeiryddion y Pwyllgorau eraill mewn slotiau 'craidd'.

3.5 Mae'r **newidiadau yn y Penderfyniad** (gweler **Atodiad 5** i gael y testun llawn) yn rhoi mewn grym yr argymhellion gan y panel yr ydym yn bwriadu eu **gweithredu o 2 Tachwedd 2009**. Mae'r rhannau o'r Penderfyniad sydd wedi newid yn y cymalau wedi'u rhifo a restrir isod, ynghyd â'r Argymhelliad perthnasol gan y panel y mae'r newid yn cyfeirio ato :

2.1.1 pennu mai £53,108 yw cyflog sylfaenol Aelodau'r Cynulliad ac felly'n dileu'r cysylltiad awtomatig rhwng cyflog Aelodau'r Cynulliad a chyflog Aelodau Seneddol (Argymhellion 8 a 9);

2.1.3 pennu faint yn union fydd cyflogau Deiliaid Swyddi Ychwanegol ac felly, yr un modd, yn dileu'r cysylltiad awtomatig rhwng cyflog Aelodau'r Cynulliad sydd hefyd yn Ddeiliaid Swyddi Ychwanegol a chyflog Gweinidogion yn llywodraeth San Steffan (Argymhelliad 8). Mae'r paragraff hwn hefyd yn cadarnhau'r cyfraddau cyflog newydd ar gyfer Cadeiryddion Pwyllgorau a Deiliaid Swyddi Ychwanegol sydd â hawl i gael yr un tâl atodol (hy Comisiynwyr, arweinyddion pleidiau nad oes ganddynt rôl weithredol heblaw arweinydd yr wrthblaid, prif chwip yr wrthblaid) (Argymhelliad 13);

3.3.6 pennu'r hyn y gellir ei ad-dalu o dan y Lwfans Costau Ychwanegol os bydd Aelod o'r 'ardal allanol' sydd wedi'i diffinio yn cadw ail dŷ. Mae'r paragraff hwn yn disodli'r paragraff 3.3.6 gwreiddiol a oedd yn caniatáu i Aelodau hawlio taliad safonol o £30.65 am dreuliau y bu'n rhaid eu hysgwyddo wrth aros dros nos o'u prif gartref ar fusnes y Cynulliad (Argymhellion 23, 27 a 29);

4.8.1 nodi mai dim ond o dan amgylchiadau eithriadol y gellir defnyddio ceir sydd wedi'u llogi (Argymhelliad 92).

3.6 O ran **ymgynghori â phob Aelod**, mae'r newidiadau gwirioneddol yn y Penderfyniad yn glir ac yn rhoi mewn grym argymhellion y panel, sydd wedi'u derbyn. Ni ddylai'r egwyddor, gan hynny, fod yn destun ymgynghori. Fodd bynnag, mae lle i ymgynghori â phob Aelod ynghylch amseriad y rhan hon o weithredu'r argymhellion os yw'r Comisiwn yn dymuno gwneud hyn. Yn ogystal, mae'r Canllawiau sydd

wedi'u hatodi i'r papur hwn (Atodiad 6) yn rhestru'r materion yn ymwneud â manylion y mae eu hangen i ategu'r argymhellion uchod. Mae'n fwriad gennym ymgynghori â'r Aelodau ynghylch pa mor eglur ac ymarferol yw'r canllawiau dros gyfnod o bythefnos cyn eu cyhoeddi ochr yn ochr â'r newidiadau yn y Penderfyniad ar 2 Tachwedd.

3.7 Mae amcangyfrif cychwynnol wedi'i wneud o'r **goblygiadau o ran cost** sydd i'r prosiect ac mae'r rhain wedi'u hymgorffori yng nghyllideb ddrafft y Comisiwn.